



Synhwrydd Gwelyau

Beth yw Synhwrydd Gwelyau?

Mae'r synhwryddion gwelyau a chadeiriau wedi eu dylunio i ganu larwm os yw cleient:

Heb fynd i'w wely erbyn yr amser a bennwyd;

Heb godi erbyn yr amser a bennwyd;

Yn codi o'i wely yn y nos a ddim yn dychwelyd o fewn amser a bennwyd ar gyfer hynny;

Gellir addasu'r ddyfais er mwyn gweithgareddau dyddiol yr unigolyn. Mae cyfleuster dewisol ar gael i droi golau neu gyfres o oleuadau ymlaen, megis rhai yn y brif ystafell wely, y cyntedd a'r ystafell ymolchi er mwyn lleihau'r perygl o syrthio os yw'r cleient yn codi o'i wely.

Beth yw manteision defnyddio synhwrydd gwely?

- Technoleg radio ddiwifr ar gyfer hyblygrwydd y dyfeisiau;
- Rhybudd batri isel awtomatig yn sicrhau bod y ddyfais yn gweithio'n dda bob amser;
- Amseroedd monitro hyblyg sy'n ateb anghenion yr unigolyn

Sut Mae'r Synhwyrdd Gwely'n Gweithio?

Mae'r synhwyrdd gwely'n cynnwys pad pwysau gwely sy'n mynd dan y fatres. Mae pad gwely lletach ar gael hefyd y gellir ei roi ar ben matres y defnyddiwr er mwyn cynyddu sensitifrwydd y ddyfais ac ateb problemau a all godi pan mae'r defnyddwyr yn fach iawn, yn ysgafn neu'n symud llawer yn eu cwsg. Pan mae wedi ei gysylltu at uned cartref Lifeline, neu system teleofal arall Tunstall

Mae'r synhwyrdd gwely yn helpu gofalwyr i drafod y peryglon sy'n gysylltiedig â byw'n annibynnol drwy ganu larwm os yw'r defnyddiwr yn codi o'i wely ac ddim yn mynd yn ôl mewn hyn a hyn o amser.

Ar gyfer pwy y mae'r synhwyrdd?

Mae'n ddelfrydol ar gyfer y pobl ganlynol:

Unigolion sydd wedi eu rhyddhau o ysbyty'n ddiweddar ac y mae arnynt angen help a chefnogaeth ychwanegol gartref.

Pobl hŷn, agored i niwed neu bobl anabl;

Pobl ag anawsterau symud megis dioddefwyr crud y cymalau;

Pobl o unrhyw oedran sy'n cymryd meddyginiaeth.

Cynnyrch cysylltiedig...

